# TAITH GERDDED 1

## Gerddi Gladstone

Heol Gladstone, Y Barri CF62 8NA

O bob llwybr, teithiwch i gyfeiriad canol tref y Barri, yna naill ai ar draed, beic neu mewn car, ewch ar hyd Heol Gladstone ar yr A4055, Buttrills Road neu Heol Holltwn tuag at y Neuadd Goffa - Y "MEMO". Gallwch gerdded i'r gerddi o ganol y dref mewn 10 munud.

- Mae gerddi Uchaf ac Isaf Gladstone union gyferbyn â'r MEMO ac mae digon o le i barcio am ddim ar y stryd yn ogystal â maes parcio mawr y tu ôl i'r MEMO.
- Ar drên - y gorsafoedd agosaf yw Dociau'r Barri a Thref y Barri. Mae'r ddwy yn daith gerdded 10-15 munud i ffwrdd.
- Ar fws - mae bws 94, 95, 96, 96A yn stopio ar Broad Street, sy'n daith gerdded 2 funud i ffwrdd.

### Mynediad i'r parc

- Mae 6 mynedfa sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn –
  - 2 yn Gladstone Isaf o Buttrills Road a Heol Gladstone.
  - 4 yn Gladstone Uchaf o Buttrills Road, Heol Kendrick, Beryl Road a'r lôn gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gladstone.
- Mae yna 6 mynedfa risiog hefyd ar hyd y mannau eistedd ar Heol Gladstone.
- Mae mynedfa un gât ar wahân gyda mynediad ar ramp i'r lawnt fowlio o'r ffin ddeheuol.
- Nid oes grisiau ar y llwybrau sy'n mynd o amgylch y parc. Mae'r cyfan yn wastad neu â llethr esmwyth.
- Nid oes toiledau yn y parc. Mae toiledau ar gael yng nghartref gofal Golau Caredig ger Gerddi Isaf Gladstone ac yn y MEMO gyferbyn.






Gallwch ddechrau eich taith gerdded o amgylch y gerddi o unrhyw un o'r mynedfeydd. Peidiwch â rhuthro a mwynhewch y golygfeydd hardd o amgylch y parciau. Gallwch ddechrau yn y gerddi isaf, sef y parc lleiaf, gyferbyn â'r MEMO. Mae'n cynnig borderi blodau, planhigion gwastatir, pwll bywyd gwyllt a man gwyrdd i chi eistedd a chael gorffwys neu bicnic.






Mae'r gerddi uchaf ac isaf yn cwmpasu ardal o tua 2 erw ac fe'i rhennir yn ddau hanner wedi'u gwahanu gan Buttrills Road.



Mae cyrtiau tenis sydd newydd eu hadnewyddu wrth ymyl y lawnt fowlio.

Mae sawl rhywogaeth o goed fawr iawn a thrawiadol, gan gynnwys Pinwydden yr Alban a choed conwydd mawr eraill. Mae'r rhywogaethau bytholwyrdd hyn yn ffurfio canopi mawr sy'n darparu strwythur, cysgod a lloches drwy gydol y flwyddyn.

Mae llwybrau gwastad yn eich arwain o amgylch y parciau y gallwch eu mwynhau heb frys.

Mae'r gerddi uchaf yn cynnwys sawl ardal gweithgareddau hamdden egnïol. Mae'r gerddi uchaf yn gartref i'r ardal actif awyr agored fwyaf ym Mhrydain felly mae digon i'ch cadw'n brysur. Beth am roi cynnig ar ychydig o ymarfer corff gan ddefnyddio'r cyfarpar sydd ar gael? Yn ogystal, mae yna ardal lawnt agored fawr, lawnt fowlio, ardal chwarae fawr, cyrtiau tenis ac iard gemau aml-ddefnydd. Mae Gerddi Gladstone yn gartref i Glwb Bowlio Canol y Barri.

**Ar ôl cerdded o amgylch y parciau hyn, beth am gerdded ymhellach i barc arall nad yw'n rhy bell i ffwrdd - y Parc Canolog.**



## Gerddi Gladstone i'r Parc Canolog

### CYFARWYDDIADAU

Gadewch y parc drwy un o'r allanfeydd ar Heol Gladstone (gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gladstone) o Erddi Uchaf Gladstone. Trowch i'r dde a dilyn y palmant i fyny'r bryn tuag at y goleuadau traffic sydd oddeutu 400m i ffwrdd.

Mae'r palmant yn rhedeg ger cyfres o goed ac mae rhannau ohono'n anwastad oherwydd y gwreiddiau sydd wedi dod i'r amlwg, felly cymerwch ofal o gwmpas y rhain. Wrth gerdded tuag at y goleuadau traffig byddwch yn croesi Regent Street, Hanover Street a Byron Street. Ar ôl i chi gyrraedd y goleuadau traffig trowch i'r dde a pharhau i gerdded i lawr y bryn ar Tynywedd Road gan groesi Woodlands Road.





Eto, mae'r palmant yn rhedeg ger cyfres o goed ac mae rhannau ohono'n anwastad felly cymerwch ofal. Ar ôl i chi gyrraedd y gylchfan fach gallwch groesi'r ffordd wrth y groesfan pelican a cherdded o flaen y Llyfrgell i Sgwâr y Brenin. Oddi yno fe welwch y brif fynedfa i'r Parc Canolog yn y gornel chwith.

Neu wrth y gylchfan fach gallwch groesi'r ffordd a pharhau ar hyd Wyndham Street lle mae mynedfa i'r parc yn y maes parcio. Mae mynedfa risiog a mynedfa hygyrch hefyd.





O Erddi Gladstone Isaf gallwch adael i Buttrills Road, sy'n allanfa wastad, neu i'r A4055 sy'n allanfa risiog gyferbyn â'r MEMO.

O'r allanfa ar Buttrills Road trowch i'r dde a dilynwch y palmant ar hyd y ffordd i lawr y gornel lle mae'r ffordd yn cwrdd â Heol Holltwn. Bydd Swyddfeydd Dinesig y Cyngor ar y dde i chi.



Dilynwch Heol Holltwn i fyny'r rhiw gan fynd heibio llawer o siopau a chaffis lleol. Parhewch i gerdd nes bydd y ffordd yn cwrdd â Tynywedd Road lle byddwch yn gweld y Llyfrgell o'ch blaen. Croeswch dros y ffordd wrth groesfan y pelican i Sgwâr y Brenin lle byddwch yn gweld prif fynedfa'r Parc Canolog yn y gornel chwith.

O'r allanfa ar yr A4055 sydd gyferbyn â'r MEMO trowch i'r chwith a dilynwch y Ffordd i lawr tuag at y gylchfan. Trowch i'r chwith wrth y gylchfan gyda Golau Caredig ar eich ochr chwith, dilynwch y palmant ar hyd Broad Street lle byddwch yn croesi ar hyd Buttrills Road a bydd Swyddfeydd Dinesig y Cyngor ar y dde. Dilynwch Heol Holltwn i fyny'r rhiw gan fynd heibio llawer o siopau a chaffis lleol. Parhewch i gerdd nes bydd y ffordd yn cwrdd â Tynywedd Road lle byddwch yn gweld y Llyfrgell o'ch blaen. Croeswch dros y ffordd wrth groesfan y pelican i Sgwâr y Brenin lle byddwch yn gweld prif fynedfa'r Parc Canolog yn y gornel chwith.




# TAITH GERDDED 2

## Parc Canolog,

Sgwâr y Brenin, y Barri CF63 4RW

*Cyfeillion y Parc Canolog* @centralpark




### Trafnidiaeth Gyhoeddus

Sgwâr y Brenin yw'r brif ganolfan fysus. Mae nifer o fysus ar gael o bob rhan o'r dref ac ardal ehangach y Fro (e.e. 86, 88, 90, 95, 96, 97 a 97a). Mae taith gerdded fer iawn ar draws Sgwâr y Brenin yn arwain i'r Parc.

Y cyswllt trên agosaf yw gorsaf Dociau'r Barri, tua 700m i ffwrdd.

Mae parcio am ddim i gerbydau oddi ar y stryd gyda golygfa o'r parc ym maes parcio Wyndham Street. Mae maes parcio aml-lawr am ddim hefyd yn Court Road, sydd 300m i ffwrdd.

### Mynediad i'r parc

- Mae mynedfeydd cyhoeddus o Sgwâr y Brenin (1), Evelyn St (1), a Wyndham Street (2).
- Mae 2 fynedfa sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn - Sgwâr y Brenin a gerllaw'r llyfrgell ar Wyndham Street.
- Nid oes grisiau ar y llwybrau sy'n mynd o amgylch y parc ac maen nhw'n wastad neu'n llethr esmwyth.
- Fel rhan o'r gwaith o adnewyddu'r parc, cafodd mynediad i'r anabl ei wella drwy osod llwybrau newydd sy'n ystyriol o gadeiriau olwyn a chafwyd gwared ar lawer o risiau bach gan wneud y tir yn fwy gwastad. Mae cyfleusterau toiled hygyrch yn y llyfrgell.
- Mae 4 pwynt mynediad ar y safle, ac mae'r prif fynedfeydd oddi ar Sgwâr y Brenin a Maes Parcio Wyndham Street. Mae dau o'r rhain wedi'u gosod â ramp neu'n wastad ar gyfer mynediad i'r anabl, sy'n golygu bod llwybr diogel i gadeiriau olwyn rhwng y sgwâr, y ganolfan siopa a'r maes parcio.
- Mae gan yr holl risiau a'r rampiau mynediad ganllawiau metel.




Mae'r parc, sydd ag arwynebedd o dua 2 erw, mewn siâp triongl ac mae'n ymddangos fel powlen neu amffitheatr, yn dibynnu ar ba fynedfa rydych chi'n ei defnyddio

Mae ardal laswelltog lydan yn y canol wedi'i ffinio â llwybrau cerrig. Mae ardal chwarae fodern sy'n cynnwys ystod o gyfarpar wedi'i gwahanu gan reiliau haearn isel. Mae cwrt pêl-fasged ger yr ardal chwarae a lloches chwarae o ddyluniad cyfoes.

Mae meinciau a mannau eistedd o amgylch y parc, felly digon o lefydd i eistedd ac edmygu'r olygfa neu gael picnic. Mae llawer o leoedd yn y dref gyfagos ar gyfer lluniaeth neu hyd yn oed ychydig o siopa ar ôl i chi orffen eich taith gerdded yn y parc.

# BRO MORGANNWG

# TAITH GERDDED O AMGYLCH GERDDI GLADSTONE



Green Flag Award
Gwobr Y Faner Werdd

*Teithiau cerdded dymunol o amgylch parciau'r Barri. Yn addas at bob oed a gallu.*

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG